Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru

## Gwneud Cymru y wlad fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop









## Diweddariad Dyfarniad y Goruchaf Lys ar Gynllun Gweithredu LHDTQ+ 19 Rhagfyr 2025

**Wedi ei gyhoeddi yn wreiddiol ym mis Mehefin 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dyma fersiwn hawdd ei ddarllen o: **Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru - Gwneud Cymru y genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd i'w deall. Gallwch wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 38**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch:

**Gwefan:** llyw.cymru/cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru

**E-bost:** lgbtq+actionplan@gov.wales

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247**.

# Cynnwys


**Diweddariad ar ddyfarniad y Goruchaf Lys ............................... 4**

**Cyflwyniad ........................................................................ 6**

**Y ffordd mae pethau yn awr ..................................................... 11**

**Ein Camau Gweithredu ............................................................. 16**

**Y ffordd y byddwn ni'n gwirio ein cynnydd ............................. 28**

**Rhestr Termau ........................................................................ 34**

**Geiriau anodd ......................................................................... 38**


# Diweddariad ar ddyfarniad y Goruchaf Lys




Ar ôl dyfarniad Goruchaf Lys y DU ar 16 Ebrill 2025 yn achos **For Women Scotland Ltd** v **Gweinidogion yr Alban**, mae "menyw" yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfeirio at rywun a gofrestrwyd yn 'fenywaidd' pan gafodd ei eni.



Yn yr un modd, mae "dyn" yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfeirio at rywun a gofrestrwyd yn 'wrywaidd' pan gafodd ei eni.



Mae'r dyfarniad hefyd yn ei gwneud yn glir bod y gair "rhyw" yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn golygu rhyw person pan gafodd ei eni.




Mae’r diffiniadau hyn hefyd yn golygu’r un peth yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+ i’r graddau y mae’n ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010.



Bydd mwy o ddiwygiadau yn cael eu gwneud i’r Cynllun i wneud yn siŵr ei fod yn cyd-fynd â’r dyfarniad.

# Cyflwyniad



Mae **LHDTC+** yn sefyll am **Lesbiaidd**, **Hoyw**, **Deurywiol**, **Trawsryweddol**, **Cwiar** neu **Cwestiynu** ac eraill. Mae hon yn gymuned o bobl sydd â phethau yn gyffredin oherwydd pwy ydyn nhw a phwy maen nhw'n eu caru:




- Mae l**esbiaid** yn ferched sy'n cael eu denu at ferched eraill.



- Mae **dynion hoyw** yn ddynion sy'n cael eu denu at ddynion eraill.



- Mae pobl **ddeurywiol** yn cael eu denu at ddynion a merched.




- Mae person **trawsryweddol** neu **drawsrywiol** yn rhywun nad yw eu rhywedd yr un fath â'r rhyw maen nhw'n credu iddynt fod pan gawson nhw eu geni.




- Mae **Cwiar** wedi cael ei ddefnyddio fel gair drwg yn erbyn pobl **LHDTC+**, ond mae rhai pobl wedi dechrau ei ddefnyddio mewn ffordd bositif. Er enghraifft, pan maen nhw'n teimlo nad yw geiriau fel syth, hoyw, a lesbiaidd yn eu disgrifio.




- Mae **Cwestiynu** ar gyfer pobl sy'n ceisio darganfod pwy ydyn nhw a sut maen nhw eisiau cael eu hadnabod.



- Mae'r symbol "+" yn golygu pob cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaethau rhywedd eraill.




Rydym ni am wneud Cymru y wlad fwyaf cyfeillgar i bobl **LHDTC+** yn Ewrop.




Mae'r cynllun hwn yn dangos y camau y byddwn ni'n eu cymryd i sicrhau bod pethau'n gyfartal ac yn deg i bobl **LHDTC+** yng Nghymru.



Rydyn ni eisiau creu cymdeithas lle mae pobl **LHDTC+** yn ddiogel i fyw a charu'n agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain.





Mae'r cynllun hwn yn set o nodau a fydd yn ein helpu ni a sefydliadau eraill i wella pethau i bobl **LHDTC+** fel:

- Hawliau dynol
- Addysg
- Diogelwch
- Tai
- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Bod a theimlo fel eu bod nhw'n eu cynnwys yn eu cymunedau




Rydym ni am sicrhau ein bod ni'n hyrwyddo hawliau ac urddas pobl **drawsryweddol** ac **anneuaidd**.




Mae rhywun **anneuaidd** yn berson nad yw ei rywedd yn cyd-fynd â syniadau arferol o'r hyn sy'n wrywaidd a'r hyn sy'n fenywaidd. Efallai y bydd person anneuaidd yn teimlo neu'n gwybod nad ydyn nhw'n ddyn nac yn fenyw.



Rydyn ni'n credu y dylem gydweithio yng Nghymru i wneud newidiadau hirdymor i gefnogi cymunedau **LHDTC+**.

# Ein nodau ar gyfer pob person LHDTC+

Ein prif nodau yw:



- Gwella **cydraddoldeb a hawliau dynol**.

Mae **Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** yn ymwneud â phawb yng Nghymru yn cael eu trin yn deg ac yn cael yr un cyfleoedd, yn enwedig grwpiau o bobl sy'n cael eu diogelu yn y gyfraith.



- Gwneud Cymru'n lle mwy diogel.



- Gwneud Cymru'n **Genedl Noddfa** i ymfudwyr LHDTC+.

**Ystyr Genedl Noddfa** golygu man lle gall pobl ddod o wledydd eraill pan fyddant mewn perygl oherwydd eu bod yn LHDTC+.



- Gwella gofal iechyd, fel ein bod ni'n gweld iechyd pobl yn gwella.



- Gwneud yn siŵr bod addysg yng Nghymru yn **gynhwysol**.



- Gwella **cynhwysiant** ac ymuno â phob rhan o fywyd.

Mae **cynhwysiant** neu **gynhwysol** yn golygu bod pobl yn cymryd rhan, yn cael dweud eu dweud ac yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.



- Gwrando ar ein cymunedau LHDTC+, a gweithio gyda nhw.



- Hyrwyddo hawliau pobl **drawsryweddol** ac **anneuaidd**.

# Y ffordd mae pethau yn awr



Rydym ni wedi gwneud llawer yng Nghymru i wella hawliau pobl **LHDTC+**. Er enghraifft, mae ysgolion a gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud mwy o waith i hyrwyddo hawliau.



Hefyd, mae barn y cyhoedd wedi gwella llawer.



Mae llawer o bobl yn dal i wynebu rhwystrau rhag cael eu trin yn gyfartal ac yn deg yng Nghymru.



Maen nhw'n cael llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn sawl agwedd ar fywyd yng Nghymru.



Nid yw llawer o bobl **LHDTC+** yn teimlo y gallant fod yn onest ynglŷn â phwy ydyn nhw. Oherwydd eu bod nhw'n teimlo y byddant yn cael eu trin yn wael neu'n annheg.

Rydym ni'n gwybod bod rhai pobl **LHDTC+** yn dal i brofi:



- Bod yn llai hapus gyda'u bywydau.



- Cael llai o fynediad at wasanaethau gofal iechyd.



- Bwlio a **throseddau casineb**.

> **Trosedd casineb** yw pan fydd rhywun yn cyflawni trosedd tuag at rywun oherwydd pwy ydyn nhw, er enghraifft, LHDTC+.



- Iechyd meddwl gwaeth gan gynnwys unigrwydd, iselder ysbryd, a hunanladdiad.



- Mwy o ddigartrefedd pan yn ifanc, o'i gymharu â phobl ifanc eraill.


Rydym ni’n gwybod y gall bywydau rhai pobl **LHDTC+** fod yn waeth os ydyn nhw:



- Yn anabl neu â phroblem iechyd.



- O hil neu gefndir crefyddol arall.




Mae’r cynllun hwn yn ymwneud â helpu i newid y materion hyn a helpu pobl **LHDTC+** i gael gwell cyfleoedd bywyd, canlyniadau a boddhad.




Yn 2021, fe wnaethom gyhoeddi fersiwn ddrafft o’r cynllun hwn a gofyn i bobl beth oedden nhw’n ei feddwl.



Cawsom dros 1,300 o ymatebion.



Dywedodd rhai o’r atebion a gawsom wrthym fod ein gweithredoedd yn rhy eang.




Roedd pobl eisiau mwy o fanylion am sut y byddem ni’n cyflawni ein nodau.



Gofynnodd pobl i ni ddarparu **Rhestr Termau**. Mae hyn fel y rhestr **Geiriau Anodd** rydyn ni’n ei defnyddio yn Hawdd ei Ddeall.



Mae’n rhestr o eiriau sy’n cael eu defnyddio’n aml wrth siarad am faterion **LHDTC+**.



Mae fersiwn Hawdd ei Ddeall o’r **Rhestr Termau** ar **dudalen 34**. Mae rhai o’r geiriau hyn hefyd yn adran **Geiriau Anodd** y llyfryn hwn ar **dudalen 36**.




Gwnaethom **Asesiad Effaith** i wirio a fydd y Cynllun hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl. Yn y dyfodol, byddwn yn cynnal **Asesiad Gwerthuso** i wirio a yw'r cynllun hwn wedi helpu pobl neu wedi newid unrhyw beth.




Byddwn yn sefydlu panel cynghori **LHDTC+** i gael cyngor ar ein gwaith.



Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Panel Cynghori **LHDTC+** i gael cyngor ar ein gwaith.

# Ein Camau Gweithredu




Rydym ni wedi rhannu ein gweithredoedd yn adrannau gwahanol.

## Hawliau dynol

Byddwn ni yn:



- Gwella dealltwriaeth o hawliau dynol pobl **LHDTC+** a diogelu'r hawliau hynny.




- Gwahardd Arferion **Trosi LHDTC+**.

> Mae **Arferion Trosi** yn golygu dulliau sy'n ceisio atal pobl LHDTC+ rhag teimlo neu fyw fel person LHDTC+. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwahardd yr arferion hyn.



- Cynyddu nifer y bobl **LHDTC+** mewn grwpiau neu mewn prosiectau sy'n ymwneud â chydraddoldeb.



- Cynnwys grwpiau **LHDTC+** yn fwy wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus.




- Gofyn i Lywodraeth y DU gael cyfraith yng Nghymru ynghylch **Cydnabod Rhywedd**. Mae hyn yn golygu y gallai Cymru ddeddfu fel y byddai'n haws i bobl draws gael cydnabyddiaeth gyfreithiol i'w rhywedd ym mhob agwedd ar eu bywydau.



- Dangos ein gwerthoedd **LHDTC+** y tu allan i Gymru a ledled y byd.

# Diogelwch a rhyddid

Byddwn ni yn:



- Ei gwneud hi'n haws i bobl **LHDTC+** riportio **troseddau casineb**.



- Gwneud mwy i atal **troseddau casineb** rhag digwydd ledled Cymru.



- Gwella perthynas cymunedau **LHDTC+** â'r heddlu yng Nghymru.



- Targedu trais yn erbyn menywod, ymhlith cymunedau **LHDTC+**.



- Sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd yn cefnogi anghenion pobl **LHDTC+**.

# Cymru yn Genedl Noddfa



Rydym ni am wneud Cymru'n **Genedl Noddfa** i **Geiswyr Lloches** a **Ffoaduriaid** **LHDTC+**.



Mae **ceisiwr lloches** yn rhywun sy'n gadael eu gwlad i ddianc rhag perygl. Maen nhw'n gofyn am fyw mewn gwlad arall.



Mae **ffoadur** yn golygu rhywun sy'n cael ei amddiffyn gan y Confensiwn Ffoaduriaid.

Byddwn ni yn:



- Cefnogi pobl **LHDTC+** i hawlio **lloches**.



- Annog datblygiad eiddo **lloches** **LHDTC+** yn unig yng Nghymru.

# Gofal iechyd, gofal cymdeithasol a lles


Byddwn ni yn:



- Gwella profiad pobl **LHDTC+** yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cleifion **LHDTC+** a staff **LHDTC+**.



- Gwneud gwasanaethau ar gyfer cael babi yn hawdd i'w defnyddio ar gyfer pobl **LHDTC+**.




- Sicrhau bod ein cynlluniau newydd ar gyfer iechyd meddwl yn cynnwys pobl **LHDTC+**.



- Gwella mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol.



- Edrych ar y ffordd orau o roi gofal iechyd i blant a phobl ifanc traws yng Nghymru.



- Parhau i ddatblygu **Gwasanaeth Rhywedd Cymru**. Mae hwn yn wasanaeth ar gyfer pobl **drawsryweddol** sydd eisiau neu sydd angen cymorth gan feddygon gyda'u rhywedd.

# Addysg gynhwysol

Byddwn ni yn:



- Rhoi arweiniad i ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch plant a phobl ifanc **trawsryweddol**.



- Cefnogi pobl ifanc **LHDTC+** a mynd i'r afael â'r bwlio maen nhw'n ei wynebu.




- Gwneud cynlluniau fel bod ysgolion yn trin myfyrwyr **LHDTC+** yn gyfartal ac yn deg.



- Gwneud yn siŵr bod colegau a phrifysgolion yng Nghymru yn trin dysgwyr, myfyrwyr a staff **LHDTC+** yn deg.

# Bywyd cymunedol, preifat a theuluol

Byddwn ni yn:



- Cefnogi bywydau teuluol pobl **LHDTC+**.



- Helpu’r sector gwaith ieuenctid **LHDTC+**.



- Cefnogi sgyrsiau rhwng grwpiau ffydd a phobl **LHDTC+**.




- Sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg **LHDTC+** fynediad at wasanaethau cymorth Cymraeg.



- Rhoi cefnogaeth i bobl **LHDTC+** sy’n ymgeisio am swyddi etholedig yng nghynghorau Cymru ac yn y Senedd.




- Cefnogi sefydliadau Pride ledled Cymru.



- Cynnal digwyddiadau ymwybyddiaeth **LHDTC+** i sicrhau bod lleisiau **LHDTC+** yn cael eu clywed.



- Cefnogi cyn-filwyr **LHDTC+** o’r **Gwasanaethau Arfog**.


Mae **Cyn-filwr** yn berson sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd milwrol, llyngesol neu awyrlu.

## Bywyd Cymru

Byddwn ni yn:



- Sicrhau bod chwaraeon yn cynnwys pobl **LHDTC+**.




- Gwella mynediad a chyfranogiad pobl **drawsryweddol** mewn chwaraeon.



- Dathlu a gwella cynrychiolaeth cymunedau **LHDTC+** yn **nhreftadaeth** a **diwylliant** Cymru.

> Mae **treftadaeth** yn ymwneud â hanes lle neu gymdeithas. Mae **diwylliant** yn ymwneud â phethau fel credoau, celfyddydau ac arferion lle neu gymdeithas.



- Cynnwys mwy o bobl a sefydliadau **LHDTC+** wrth ddylunio digwyddiadau a gweithgareddau.

# Gweithleoedd cynhwysol

Byddwn ni yn:




- Cadw gwybodaeth bersonol pobl yn breifat, pan fo angen, er enghraifft pan fyddwn yn recriwtio pobl.




- Darparu hyfforddiant am **gynhwysiant** pobl **LHDTC+** i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus.



- Annog busnesau i fod yn **gynhwysol** i bobl **LHDTC+**.

# Effaith COVID-19

Byddwn ni yn:




- Meddwl am brofiadau pobl **LHDTC+** wrth gynllunio ymateb i COVID-19.




- Edrych ar sut mae COVID-19 wedi effeithio ar bobl **LHDTC+**.

# Y ffordd y byddwn ni'n gwirio ein cynnydd



Mae angen i ni fod yn glir ynghylch sut y byddwn ni'n cyflawni ein gweithredoedd.




I wneud hyn rydym ni wedi gwneud cynllun o'r hyn y byddwn ni'n ei wneud a phryd.



Rydym ni am wirio ydy pethau wedi newid.



Pan fyddwn ni'n cyflawni **canlyniadau** rydym ni'n gwybod bod pethau wedi newid.

# Canlyniadau

Dyma rai o'r prif **ganlyniadau** y byddwn ni'n chwilio amdanynt, i ddangos ein bod wedi cyflawni ein gweithredoedd.



- Bydd mwy o bobl yn deall hawliau pobl **LHDTC+**.




- Bydd pobl **LHDTC+** yn cael cefnogaeth i ddefnyddio eu hawliau.



- Bydd gwasanaethau cymorth gwell ar gael i bobl sydd wedi profi **arferion trosi**.



- Bydd pobl **LHDTC+** yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cynnwys yn fwy mewn bywyd cyhoeddus.



- Byddwn yn gweld mwy o gefnogaeth i bobl **drawsryweddol**.



- Bydd pobl **LHDTC+** yn teimlo'n fwy abl i riportio **troseddau casineb**. Bydd mwy o bobl yn deall beth yw **troseddau casineb**.



- Mae pobl **LHDTC+** yn teimlo y gallant ymddiried yn yr heddlu.




- Bydd pobl **LHDTC+** yn fwy gweladwy ac yn cael eu cynrychioli yn yr heddlu.



- Bydd gwell dealltwriaeth o anghenion pobl **LHDTC+** anabl a'r rhai o wahanol hil neu gefndiroedd.



- Bydd gwell cefnogaeth i bobl **LHDTC+** ddigartref.



- Bydd pobl **LHDTC+** yn teimlo’n ddiogel, yn cael eu parchu a’u deall pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



- Bydd teuluoedd un rhyw yn cael mynediad cyfartal at driniaeth ffrwythlondeb.



- Bydd plant a phobl ifanc **trawsryweddol** yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau maen nhw eu hangen yn nes at eu cartrefi.



- Mae plant **LHDTC+** yn gwybod sut i gael cefnogaeth os ydyn nhw’n cael eu bwlio




- Bydd gan ysgolion yr adnoddau maen nhw eu hangen i sicrhau bod dysgwyr **LHDTC+** yn cael eu cynnwys a'u cefnogi.



- Bydd myfyrwyr **LHDTC+** yn teimlo eu bod nhw'n gallu cyflawni eu potensial.



- Bydd teuluoedd yn teimlo y gallant gefnogi aelodau **LHDTC+** o'u teulu.



- Bydd pobl **LHDTC+** o ffydd yn teimlo eu bod nhw'n cael eu derbyn gan eu cymuned ffydd.



- Bydd siaradwyr Cymraeg **LHDTC+** yn gallu manteisio ar wasanaethau yn Gymraeg.




- Bydd pobl **LHDTC+** yn teimlo eu bod nhw'n cael eu derbyn a'u cynrychioli'n fwy ym mywyd Cymru. Er enghraifft, mewn chwaraeon.



- Bydd llai o rwystrau i bobl **LHDTC+** pan fyddant yn gwneud cais am swyddi.



- Bydd mwy o weithleoedd sy'n **gynhwysol**.




- Bydd pobl **LHDTC+** yn teimlo eu bod nhw'n cael mwy o gefnogaeth gydag effeithiau'r pandemig COVID-19.

# Rhestr Termau

**Anrhywiol / Anromantig neu Ace / Aro**

Mae'r rhain yn bobl sydd ag atyniad isel neu ddim atyniad tuag at bobl eraill.

Mae Ace yn derm sy'n cael ei ddefnyddio weithiau ar gyfer Anrhywiol.

Mae Aro yn derm sy'n cael ei ddefnyddio weithiau ar gyfer Aromantig.

**Ailbennu Rhywedd**

Mae hyn yn ymwneud â phobl **drawsryweddol**. Mae'n golygu pan fydd rhywun ar daith i archwilio, deall neu gadarnhau ei rywedd ei hun pan nad yw yr un fath â'r rhyw y credwyd iddynt fod pan gawsant eu geni.

**Anneuaidd**

Mae rhywun anneuaidd yn berson nad yw ei rywedd yn cyd-fynd â syniadau arferol o'r hyn sy'n wrywaidd a'r hyn sy'n fenywaidd. Efallai y bydd person anneuaidd yn teimlo neu'n gwybod nad ydyn nhw'n ddyn nac yn fenyw.

**Arferion Trosi**

Mae Arferion Trosi yn golygu dulliau sy'n ceisio atal pobl LHDTC+ rhag teimlo neu fyw fel person LHDTC+.
Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwahardd yr arferion hyn.

**Croestoriadedd**

Mae hyn yn golygu trin pobl yn annheg oherwydd mwy nag 1 o'r **nodweddion gwarchodedig**.

**Nodweddion gwarchodedig** yw pethau fel oedran, anabledd, rhyw, hil a chrefydd.

Er enghraifft, efallai y bydd rhywun yn cael ei drin yn annheg oherwydd ei fod yn LHDTC+ a bod ganddynt anabledd. Mae'r rhain yn o leiaf 2 fath o **nodweddion gwarchodedig**.

**Cyfeiriadedd rhywiol**

Dyma sut mae person yn teimlo, yn rhywiol, am bobl eraill. Mae'n ymwneud ag atyniad rhwng pobl.

**Hunaniaeth Rhywedd**

Mae'r term hwn yn golygu'r un peth â rhywedd. Nid yw rhai pobl yn hoffi'r term hwn ac mae'n well ganddyn nhw ddefnyddio rhyw.

## LHDTC+

Mae **LHDTC+** yn sefyll am Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Cwiar neu Cwestiynu ac eraill.

Mae hon yn gymuned o bobl sydd â phethau yn gyffredin oherwydd pwy ydyn nhw a phwy maen nhw'n eu caru:

- Mae **lesbiaid** yn ferched sy'n cael eu denu at ferched eraill.
- Mae **dynion** hoyw yn ddynion sy'n cael eu denu at ddynion eraill.
- Mae pobl **ddeurywiol** yn cael eu denu at ddynion a merched.
- Mae person **trawsryweddol** neu drawsrywiol yn rhywun nad yw eu rhywedd yr un fath â'r rhyw maen nhw'n credu iddynt fod pan gawson nhw eu geni.
- Mae **Cwiar** wedi cael ei ddefnyddio fel gair drwg yn erbyn pobl LHDTC+, ond mae rhai pobl wedi dechrau ei ddefnyddio mewn ffordd bositif. Er enghraifft, pan maen nhw'n teimlo nad yw geiriau fel syth, hoyw, a lesbiaidd yn eu disgrifio.
- Mae **Cwestiynu** ar gyfer pobl sy'n ceisio darganfod pwy ydyn nhw a sut maen nhw eisiau cael eu hadnabod.

## Mynegiant Rhywedd

Dyma sut mae rhywun yn dewis cyflwyno ei hun. Gall cymdeithas feddu ar syniadau am sut y dylai pobl wisgo neu edrych. Ond mae rhai pobl eisiau mynegi eu hunain mewn gwahanol ffyrdd.

**Nodweddion Gwarchodedig**

Mae hyn yn ymwneud â deddf o'r enw Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r gyfraith hon yn sôn am sut mae rhai pobl yn cael eu trin yn annheg oherwydd bod pobl eraill yn eu hystyried yn wahanol. Er enghraifft, oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r rhain yn **nodweddion gwarchodedig**.

**Rhywedd**

Rhywedd yw os yw rhywun, er enghraifft, yn fenyw, yn wrywaidd neu'n anneuaidd.

**Rhywedd Amrywiol**

Dyma pryd mae rhyw unigolyn yn wahanol i'r hyn mae cymdeithas yn ei ystyried yn safonol.

**Rhyngrywiol ac Amrywiadau o Nodweddion Rhyw (VSC)**

Mae gan berson rhyngrywiol neu VSC wahaniaethau yn rhannau rhywiol neu atgenhedlu eu corff o'i gymharu â'r rhan fwyaf o bobl. Efallai na fydd y gwahaniaethau hyn yn weladwy ar y tu allan.

**Rhyw**

Mae pobl yn rhyw benodol oherwydd pethau corfforol fel organau rhyw a hormonau. Fodd bynnag, nid yw rhyw rhai pobl yn cyd-fynd â'r rhyw y cawsant eu geni ag ef.

# Geiriau anodd

## Anneuaidd

Mae rhywun anneuaidd yn berson nad yw ei rywedd yn cyd-fynd â syniadau arferol o'r hyn sy'n wrywaidd a'r hyn sy'n fenywaidd. Efallai y bydd person anneuaidd yn teimlo neu'n gwybod nad ydyn nhw'n ddyn nac yn fenyw.

## Arferion Trosi

Mae Arferion Trosi yn golygu dulliau sy'n ceisio atal pobl LHDTC+ rhag teimlo neu fyw fel person LHDTC+.

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwahardd yr arferion hyn.

## Ceisiwr lloches

Mae ceisiwr lloches yn rhywun sy'n gadael eu gwlad i ddianc rhag perygl. Maen nhw'n gofyn am fyw mewn gwlad arall.

## Cenedl Noddfa

Mae Cenedl Noddfa yn golygu lle gall pobl ddod o wledydd eraill pan fyddant mewn perygl oherwydd eu bod nhw'n LHDTC+, neu i deimlo'n fwy diogel yng Nghymru fel Ceiswyr Lloches LGBTQ+

## Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ymwneud â phawb yng Nghymru yn cael eu trin yn deg ac yn cael yr un cyfleoedd, yn enwedig grwpiau o bobl sy'n cael eu diogelu yn y gyfraith.

## Cynhwysiant neu gynhwysol

Mae cynhwysiant neu gynhwysol yn golygu bod pobl yn cymryd rhan, yn cael dweud eu dweud ac yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.

## Cyn-filwr

Mae Cyn-filwr yn berson sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd milwrol, llyngesol neu awyrlu.

## Ffoadur

Mae ffoadur yn golygu rhywun sy’n cael ei amddiffyn gan y Confensiwn Ffoaduriaid.

## Trosedd casineb

Trosedd casineb yw pan fydd rhywun yn cyflawni trosedd tuag at rywun oherwydd pwy ydyn nhw, er enghraifft, LHDTC+.

## Treftadaeth a Diwylliant

Mae treftadaeth yn ymwneud â hanes lle neu gymdeithas. Mae diwylliant yn ymwneud â phethau fel credoau, celfyddydau ac arferion lle neu gymdeithas.